

Cyngor Sir Caerfyrddin

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2022-2023

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2022 tan fis Mai 2023 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

Y Cynghorydd: Lewis Davies	Adran Etholiadol: Cydveli a Llanismel
----------------------------	---------------------------------------

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau
Pwyllgorau'r Cyngor:
Y Cyngor Llawn
Y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
Y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg
Pwyllgor y Gwasanaethau Democraataidd (Cadeirydd)
Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Cofnod Presenoldeb: Cofnod presenoldeb - Cyng. Lewis Davies (llyw.cymru)

Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth
<p>Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi codi 61 o ymholiadau drwy'r system ymholiadau gan gynghorwyr a 21 cais arall am wasanaeth (biniau oedd heb eu casglu, tipio anghyfreithlon, tyllau yn y ffordd a goleuadau stryd diffygiol).</p> <p>Drwy Gynllun Grant Lleodd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, roeddem wedi gallu sicrhau cyllid i blannu coed yn y Cei yng Nghydveli. Ar 4 Mawrth, cymerodd trigolion Cydveli ran mewn sesiwn plannu coed, lle plannwyd dros 200 o goed. Plannwyd amrywiaeth o goed, gan gynnwys y wern gyffredin, y fedwen gyffredin, y dderwen ddisymud, y gerddinen, ceiriosen yr adar, y llwyfen lydanddail, coed afalau bach surion, y ddraenen wen, y gollen, y biswydden a'r gorswigen.</p> <p>Cefais hefyd y pleser o fynychu agoriad swyddogol adeilad newydd Ysgol y Castell. Costiodd y cyfleuster newydd sbon £7.4 miliwn i'w ddarparu ac fe'i ariannwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, drwy ei Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, a chan Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Cyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>Rydym wedi cael sawl her ar draws y Ward, o'r pryderon diogelwch ynghylch Hen Neuadd y Dref a'r gwaith arolygu parhaus sy'n cael ei wneud yn yr Amgueddfa Ddiwydiannol, i gau Swyddfa'r Post yng Nglanyfferi yn ddiweddar. Rwyf wedi bod yn trefnu cyfarfodydd gyda swyddogion y Cyngor ynghylch asedau Cydveli a Mynyddygarreg dros y 12 mis diwethaf a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion am asedau'r ddau bentref dros y misoedd nesaf. Rwyf wedi cydweithio'n agos gyda'n AS Lleol, y Cyngor Cymuned a Swyddfa'r Post i geisio sicrhau bod gwasanaeth swyddfa bost hyfyw yn dychwelyd i Lanyfferi.</p>

Rydym wedi cynnal 4 cymhorthfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar draws y Ward – 2 yn Llan-saint, 1 yng Nglanyfferi ac 1 ym Mynyddygarreg. Byddwn yn ceisio cynyddu nifer y cymorthfeydd y byddwn yn eu cynnal eleni – cysylltwch â ni os hoffech gynnal cymhorthfa yn eich lleoliad.

Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion

Rhestr o Gyrrff Llywodraethu Ysgolion	Cofnod Presenoldeb	
	Nifer y Cyfarfodydd	Canran
Ysgol Glanyfferi	3	100%
Ysgol Mynyddygarreg	4	100%

Adran 4: Cynrychiolaeth Cyrff Allanol

Rhestr o gyrrff allanol	Cofnod Presenoldeb	
	Nifer y Cyfarfodydd	Canran
Cyngor Llyfrau Cymru	1	100%

Adran 5: Dysgu a Datblygu

- 17/05/22 - Cod Ymddygiad, Moeseg, Safonau, Dyletswyddau Cyfreithiol
- 20/05/22 - Cyflwyniad a Throsolwg o Modern.Gov
- 23/05/22 - Materion Cyfansoddiadol a Pharatoi ar gyfer Cyfarfodydd
- 26/05/22 - Cyllid Llywodraeth Leol
- 06/06/22 - Rheoleiddwyr allanol
- 09/06/22 - Craffu yn Sir Gaerfyrddin
- 10/06/22 - Newid yn yr Hinsawdd
- 16/06/22 - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- 20/06/22 – Hyfforddiant Cyfathrebu mewn Argyfwng
- 08/07/22 - Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- 12/07/22 - Rhianta Corfforaethol a Diogelu
- 18/07/22 - Diogelwch Personol a Hunanofal
- 22/07/22 - Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- 01/09/22 - Seiberddiogelwch
- 22/09/22 - Y Lluoedd Arfog
- 27/09/22 – Rheoli Gwaith Achos yn Effeithiol
- 03/10/22 - Polisi Cwynion Corfforaethol
- 07/10/22 - Cyflwyniad i Drawsnewid
- 24/10/22 - Eiddo sy'n berchen i'r Cyngor
- 02/12/22 - Cronfa Bensiwn Dyfed
- 01/03/23 – Cwrs Dysgu Cymraeg Uwch 3
- 08/06/23 – Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ofalwyr
- 19/06/23 – Ysgrifennu Areithiau Creadigol

Adran 6: Gweithgareddau a Materion Eraill

Ar 8 Mawrth, pleidleisiais o blaid polisi'r Cyngor Sir ynghylch premiymau ar ail gartrefi ac eiddo gwag. O fis Ebrill 2024, bydd perchnogion ail gartrefi yn talu premiwm o 50% ar ail gartrefi a phremiwm o 50% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am un i ddwy flynedd. Mae'r premiwm yn codi i 100% - neu ddyblu'r dreth gyngor - ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag am ddwy i bum mlynedd, a 200% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na phum mlynedd.

Canfu Cyfrifiad 2021 fod gan ein Ward 60 o dai gwyliau a bod 50 o'r tai hyn yn hen Ward Llanismel. Dim ond un o ystod o fesurau yw'r premiwm ail gartrefi lle byddaf yn cefnogi'r Cyngor Sir i fynd i'r afael â diffyg parhaus llety fforddiadwy ac addas i bobl ifanc a theuluoedd ifanc yn ein hardal.

Llofnodwyd gan y Cynghorydd: Lewis Davies

Dyddiad: 03/07/23